SKSG8

Rigio pennau a systemau o bell

Trosolwg

Mae'r Safon hwn yn ymwneud â gosodiad arbenigol pen a reolir o bell. Gallai hyn fod ar graen neu unrhyw fath arall o fownt y mae'r grip yn gyfrifol amdano, ble nad yw manyleb lawn y craen yn wybyddus i gyflenwr y pen o bell o reidrwydd. Mae'n ymwneud â chyflawni hyn yn ddiogel ac o fewn paramedrau'r mownt sydd i gael ei ddefnyddio.

Mae'r Safon hwn ar gyfer unrhyw un sy'n rigio pennau a systemau o bell.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1 Cynnal asesiadau risg yn unol â gofynion iechyd a diogelwch ar gyfer lleoliadau risg uchel

2 Gwirio fod pwysau'r pennau ynghyd â'r pwysau eraill sydd i'w llwytho ar y mowntiau ddim yn fwy na manylebau'r gwneuthurwr

3 Defnyddio rhyngwynebau a dyfeisiadau sicrhau a nodir

4 Sicrhau fod unrhyw fondiau daearu arbennig yn sicr a bod pob cebl yn caniatáu symud y pennau'n llawn ymhob cyfeiriad sy'n cael ei ddefnyddio

5 Gwirio nad yw ceblau'n gallu amharu ar fowntiau nac unrhyw beth nad yw'n rhan o'r mowntiau

6 Darparu gwarchodaeth amgylcheddol yn unol â manylebau'r mowntiau

7 Cytuno ar ddulliau cyfathrebu rhwng yr holl griw sy'n ymwneud `â gweithredu'r rigiau, sy'n ddibynadwy

8 Diogelu a gwarchod offer pan nad yw'n cael ei ddefnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1 Deddfwriaeth, canllawiau ac arfer orau cyfredol y diwydiant

2 Sut i adnabod pan fydd lleoliadau'n risg uchel gan gynnwys uchder a lleoedd cyfyng.

3 Sut i gael gwybodaeth am bwysau pennau o bell, eu prif lwyth, ac unrhyw geblau, a'u perthnasedd i rigiau a'r hyn y maen nhw'n mynd i gael eu mowntio arnyn nhw

4 Dulliau a mathau o ffasninau sydd eu hagen i osod pennau o bell i fowntiau

5 Y mathau o glymau diogelwch ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer camerâu a'u hategolion

6 Unrhyw ofynion trydanol arbennig

7 Cyfyngiadau eich arbenigedd a phryd y mae'n addas i alw ar arbenigwyr eraill

8 Manteision gweithio fel tîm a sut i gyfathrebu ag eraill

9 Unrhyw ofynion neu gyfyngiadau amgylcheddol arbennig

10 Bod gweithdrefnau a chyfathrebiadau diogelwch yn eu lle rhwng y grip a chriw'r camera, a'u pwysigrwydd

11 Gweithdrefnau i'w mabwysiadu wrth weithio ar uchder, gan gynnwys gwarchod, byrddau bysedd traed, byrddau cicio a chanllawiau dwylo

12 Sut i sicrhau offer pan nad yw'n cael ei ddefnyddio

13 Pam ei bod hi'n bwysig cadw offer yn sych ac yn rhydd o lwch, tywod a malurion eraill

SKSG8

Rigio pennau a systemau o bell

Datblygwyd gan	Creative Skillset
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2018
Indicative Review Date	Mawrth 2022
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Screen Skills (gynt Creative Skillset)
RCU gwreiddiol	SKSG8
Galwedigaethau perthnasol	Grip; Grip dan hyfforddiant; Technegydd Craen (Ffilm a theledu); Gweithredwr Craen (Ffilm a theledu)
Cyfres/Set	Grips a thechnegwyr craeniau
Geiriau Allweddol	Grip, Iechyd a diogelwch, Systemau, Pennau